

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM  
DEDDF TIROEDD COMIN 2006 ADRAN 15(1) AC ADRAN 111 DEDDF  
LLYWODRAETH LEOL 1972  
HYSBYSIAD O DDERBYN CAIS  
AR GYFER COFRESTRU TIR FEL MAES TREF NEU BENTREF  
SYDD WEDI'I LEOLI AC A ELWIR YN COED LLWYNEINION**

**Rhif y Cais WCBC-037135-01-VG13C-**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod y Cyngor fel Awdurdod Cofrestru wedi derbyn y Cais uchod ar gyfer Cofrestru'r tir fel Maes Tref neu Bentref.

Gofynnodd y Cyngor i Arolygydd Annibynnol gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Anstatudol a darparu argymhellion ynghylch a ddylid caniatáu neu wrthod y Cais.

Cynhaliwyd yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar 16 Rhagfyr 2021. Yn dilyn yr Ymchwiliad, cyflwynodd yr Arolygydd Annibynnol adroddiad ar 7 Mawrth 2023 a oedd yn argymhell derbyn y Cais ar sail y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, ac y dylid derbyn y Cais yn benodol gan ei fod yn bodloni pob elfen o'r prawf statudol o dan adran 15(3) Deddf Tiroedd Comin 2006 ac ar y cyfan, roedd y tir yn cael ei ddefnyddio'n barhaus gan nifer fawr o breswylwyr Llwyneinion ar gyfer chwaraeon a difyrion cyfreithiol, yn ystod y cyfnod dan sylw, nes iddynt roi'r gorau i'w ddefnyddio.

Cymeradwywyd argymhellion yr Arolygydd Annibynnol gan y Cyngor yng nghyfarfod Llawn y Cyngor ar 28 Medi 2022.

Mae adroddiad y pwyllgor llawn ar gael ar-lein trwy ddilyn y ddolen ganlynol:-

<https://moderngov.wrecsam.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=128&MId=8333&LLL=0>

Gall unrhyw un sy'n dymuno cael copïau o unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r materion uchod, wneud cais i'w gweld trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost cyswllt isod.

E-bost cyswllt: [legaldem@wrexham.gov.uk](mailto:legaldem@wrexham.gov.uk)

Dyddiedig 22 Tachwedd 2022

Linda Roberts

Prif Swyddog – Llywodraethu a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

